# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3) 24-09)

**Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Tachwedd 2009**
**Amser: 9.30 - 11.45**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Gareth Jones (Cadeirydd), Aberconwy
Christine Chapman, Cwm Cynon
Jeff Cuthbert, Caerffili
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
David Melding, Canol De Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Jenny Randerson, Canol Caerdydd

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Siân Phipps, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwr y Pwyllgor

Graham Winter, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eraill yn bresennol

Claire Keggie, Pennaeth Polisi Rheilffyrdd, Strategaeth a Buddsoddi, Transport Scotland
Stephen Wolstenholme, Rheolwr Strategaeth Rheilffyrdd, yr Adran Drafnidiaeth
David Sexton, Rheolwr Datblygu, yr Is-adran Masnachfraint a Dynodi Allbwn Lefel Uchel, yr Adran Drafnidiaeth

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Huw Lewis.

### 2: Seilwaith rheilffyrdd Cymru ar gyfer y dyfodol
### Papurau: EL(3) 24-09 - Papur 1; EL(3) 24-09 - Papur 2

**Transport Scotland**

2.1 Croesawodd y Pwyllgor Claire Keggie, Pennaeth Polisi Rheilffyrdd, Strategaeth a Buddsoddi, Transport Scotland.

2.2 Craffodd y Pwyllgor ar dystiolaeth y tyst. **Yr Adran Drafnidiaeth** 2.3 Croesawodd y Pwyllgor Stephen Wolstenholme, Rheolwr Strategaeth Rheilffyrdd; a David Sexton, Rheolwr Datblygu, yr Is-adran Masnachfraint a Dynodi Allbwn Lefel Uchel. 2.4 Craffodd y Pwyllgor ar dystiolaeth y tystion. **Camau i'w cymryd:** Cytunodd Transport Scotland i ddarparu:

Rhagor o wybodaeth am yr ymgyrch i achub rheilffordd Gorllewin Ucheldiroedd yr Alban.

Cytunodd yr Adran Drafnidiaeth i ddarparu:

Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Orsafoedd Trenau Gwell gan Chris Green a Syr Peter Hall; a

Dolen gyswllt i'r dogfennau ymgynghori ar y Datganiadau Polisi Cenedlaethol Drafft ar gyfer Porthladdoedd a gafodd eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2009.

**Papurau i'w nodi:**

### Grŵp Gweithredu Twnnel Hafren (STAG)
### Papur: EL(3) 24-09 - Papur 3, Atodiad

### Cŵn Tywys ar gyfer Pobl Ddall
### Papur: EL(3) 24-09 - Papur 4

**Tony Burton**
**Papur: EL(3) 24-09 - Papur 5**

**Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Weinidog dros Adfywio ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar y ddeiseb 'Pride in Barry'**
**Papur: EL(3) 24-09 - Papur 6**

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: EL(3) 24-09 - Cofnodion**

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd.

### Sesiwn breifat

O dan Reol Sefydlog 10.37(vi), cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat.

### 3: Gwybodaeth ar yr ymchwiliad i greu swyddi yn yr economi werdd

3.1 Cafodd y Pwyllgor ragor o wybodaeth ynghylch cwmpas ei ymchwiliad i greu swyddi yn yr economi werdd.

### 4: Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Priffyrdd a Thrafnidiaeth)

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ynghylch Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2009, a chytunodd ar ffordd ymlaen.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Tachwedd 2009**